ADRODDIAD

Arolwg Rhanddeiliaid CCAUC 2007

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Ebrill 2008

Strategic Marketing
5-7 Ffordd yr Amgueddfa
Caerdydd, Cymru
CF10 3BD
Ffôn: ++44 (0)29 2030 3100
Ffacs:++44 (0)29 2023 6556

www.strategic-marketing.co.uk

Cynnwys ..... Tudalen

1. Cyflwyniad a Chefndir 3
2. Crynodeb Gweithredol 4
3. Methodoleg 10
4. Cynllun y Dadansoddiad a'r Adroddiad 12
5. Arolwg o Sefydliadau 13
6. Arolwg Partneriaid 47

1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Ym mis Medi 2007 comisiynodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) Strategic Marketing i gyflawni ei Arolwg Rhanddeiliaid annibynnol cyntaf. Roedd yr arolwg yn cynnwys y sefydliadau a ariennir ganddo a sefydliadau partner yng Nghymru a mannau eraill yn y DU.

1.2 Amcanion yr arolwg oedd cael barn rhanddeiliaid allanol am y gwasanaethau y mae CCAUC yn eu darparu ac am ei berthynas gyda'r sefydliadau hynny.

1.3 Roedd yr arolwg i fod i roi sylw i'r materion canlynol:

- gwybodaeth/ymwybyddiaeth a barn am CCAUC
- canfyddiadau am swyddogaeth CCAUC
- canfyddiadau am ansawdd gwasanaeth a chymorth
- cyswllt ac ymdrin â staff
- effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu
- effeithiolrwydd perthynas gyda phartneriaid/rhanddeiliaid
- meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella

2. Crynodeb Gweithredol

2.1 Ym mis Tachwedd 2007 cynhaliodd CCAUC arolwg annibynnol ar-lein o Randdeiliaid ymhlith Sefydliadau a sefydliadau Partner yng Nghymru a sefydliadau Partner mewn mannau eraill yn y DU. Roedd yr holiadur yn feintiol i raddau helaeth gyda dim ond ychydig o gwestiynau agored.

2.2 Cafwyd 65 ymateb (cyfradd ymateb o 71%) gan Sefydliadau a 48 ymateb gan Bartneriaid (cyfradd ymateb o 59%)

2.3 Ym mis Chwefror/Mawrth 2008 cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau ffôn dilynol gyda sefydliadau a Phartneriaid wedi'u dethol er mwyn deall y rhesymau dros rai o'r canlyniadau meintiol.

Canlyniadau gan Sefydliadau

Enw da

2.4 Mae'r farn gyffredinol am CCAUC yn ffafriol iawn neu'n ffafriol gan fwyaf gan bron i dri chwarter o'r ymatebwyr ac yn fwy ffafriol na'r holl gyrff eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch. Roedd bron i 70% o ymatebwyr yn ystyried bod ansawdd staff yn weddol dda neu'n dda iawn.

2.5 Fodd bynnag, dim ond 30% o ymatebwyr sydd o'r farn bod gan CCAUC enw gweddol dda neu dda iawn ymhlith sefydliadau AU. Roedd eu barn am effeithiolrwydd y Cyngor yn debyg.

2.6 Ystyrir bod CCAUC yn dda iawn o gymharu â sefydliadau eraill o ran y gwasanaeth a ddarperir - mae 54% yn ystyried bod CCAUC yn 'uwch na'r cyfartaledd' neu'n 'un o'r goreuon.

2.7 Mae dros 80% o ymatebwyr yn gweld CCAUC fel asiant i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, mae ychydig dros 50% o ymatebwyr hefyd yn gweld CCAUC yn eiriolwr neu lefarydd dros y sector AU. Nid yw lleiafrif sylweddol o ymatebwyr yn gweld CCAUC yn eiriolwyr effeithiol i'r sector.

2.8 Nid oes barn unfryd ynghylch a yw CCAUC yn ystyried effeithiau ei ofynion ar sefydliadau. Mae rhai ymatebwyr yn gweld bod CCAUC yn un sy'n deall yr effeithiau ond yn gorfod gweithredu penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad, tra bod eraill yn credu nad yw CCAUC yn deall effeithiau ei ofynion ar Sefydliadau. Nid yw llawer o sefydliadau yn credu bod CCAUC yn cynrychioli barn y sector yn ddigonol i Lywodraeth y Cynulliad ar y mater hwn.

2.9 Nid oes barn unfryd chwaith ynghylch ai corff rheoleiddio yw CCAUC yn bennaf. Efallai mai'r rheswm am hyn yw'r gwahaniaeth yn y dehongliad o 'rheoleiddio'.

Disgrifiadau o CCAUC

2.10 Pan ofynnwyd am ymatebion i rai ymadroddion neu ansoddeiriau yn disgrifio CCAUC, roedd yna fwy o ymatebion cadarnhaol nac ymatebion negyddol ac eithrio yn achos biwrocratiaeth ac arloesedd. Gwelwyd mai'r meysydd cryfaf oedd ei hygyrchedd, ei effeithiolrwydd, ei fod yn ymwybodol o waith a sefyllfa'r sefydliadau ac yn cael ei barchu.

2.11 Mae dwy ran o dair o ymatebwyr yn gweld bod CCAUC yn weddol fiwrocrataidd neu'n fiwrocrataidd iawn. Yn y trafodaethau ar y ffôn roedd llawer o ymatebwyr, ond nid pawb, yn tueddu i gredu bod biwrocratiaeth yn rhywbeth i'w ddisgwyl o ystyried natur perthynas CCAUC gyda Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn atal llawer o ymatebwyr rhag rhoi enghreifftiau o fiwrocratiaeth 'ddiangen'. Roedd barn negyddol a fynegwyd ynglŷn â bod 'yn araf i newid' ac 'yn anhyblyg' hefyd yn tueddu i adlewyrchu'r sylwadau am fiwrocratiaeth.

2.12 Lle mynegwyd barn nad oedd CCAUC yn ymwybodol o waith a sefyllfa'r sefydliadau a ariennir ganddo, y teimlad oedd nad oedd CCAUC yn deall digon am y ffordd y mae sefydliadau yn gweithredu.

2.13 Mae rhai sefydliadau yn gweld nad yw CCAUC yn dryloyw yn y ffordd y mae'n gweithredu. Roedd diffyg adborth a pheidio ag egluro'r rhesymau dros ei benderfyniadau yn ffactorau allweddol a oedd yn cyfrannu at y farn hon.

2.14 Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr heb benderfynu ynglŷn â nifer o'r disgrifiadau. Mae hyn yn peri syndod o ystyried statws ymatebwyr ac yn gyfle neu'n fygythiad sylweddol i CCAUC ymdrin ag ef.

Gwasanaeth a chefnogaeth

2.15 Roedd bron i 40% o ymatebwyr yn credu bod y gwasanaeth yr oedd CCAUC yn ei ddarparu wedi gwella ychydig yn y 12 mis diwethaf tra'r oedd bron i 50% heb weld unrhyw newid.

2.16 Yn y rhan fwyaf o adrannau roedd tua 40% i 50% o ymatebwyr yn dweud bod lefel y gwasanaeth yn dda iawn neu'n weddol dda, ond mae nifer cymharol uchel o ymatebwyr yn gymysg eu barn neu 'ddim yn gwybod'. Mae'n syndod gweld cymaint o ymatebwyr yn dweud 'ddim yn gwybod' a dylai CCAUC fod yn ceisio newid eu barn i un cadarnhaol.

2.17 Mae cyfran fechan (2% i 22% gan ddibynnu ar agwedd y gwasanaeth) o ymatebwyr yn credu bod pob agwedd ar y gwasanaeth wedi gwella yn 2007. Cyfathrebu electronig a chyswllt wyneb yn wyneb yw'r meysydd sydd wedi gwella fwyaf. Gan edrych ymlaen hoffai sefydliadau weld CCAUC yn parhau i ddatblygu perthynas bersonol a thrafod gyda'r sector.

2.18 Fodd bynnag, mae bron i draean o ymatebwyr yn credu bod y baich gweinyddol wedi cynyddu. Un pryder allweddol yw nifer y mentrau a'r angen am strategaethau manwl er mwyn gwneud cais am symiau bychain o arian. Mae tuedd CCAUC i ficro-reoli'r mentrau hyn yn cael ei grybwyll yn aml.

Effeithiolrwydd

2.19 O ran ei wasanaeth i bob Sefydliad, mae bron i 60% neu fwy o ymatebwyr yn gweld bod CCAUC yn effeithiol iawn neu'n weddol effeithiol yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth. Roedd cyfran fechan o ymatebwyr yn ystyried bod CCAUC yn aneffeithiol, er bod 31% o ymatebwyr yn gweld nad yw 'dadansoddiad ac adborth ar gynlluniau strategol' yn effeithiol iawn neu ddim yn effeithiol o gwbl.

2.20 Mae'r rhai sy'n ystyried nad yw adborth ar gynlluniau strategol yn effeithiol yn cwyno ynglŷn â'r canolbwyntio ar faterion ymylol yn hytrach na materion strategol a'r amser hir rhwng cyflwyno cynllun a chael adborth.

2.21 O ran y sector cyfan, mae tua 40% i 50% o ymatebwyr yn gweld bod CCAUC yn effeithiol iawn neu'n weddol effeithiol mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae bron i chwarter yr ymatebwyr yn teimlo bod y gwasanaeth i'r sector yn gyffredinol wedi gwella ychydig yn 2007 a dim ond 6% sy'n ystyried ei fod wedi dirywio ychydig.

2.22 Y gweithgareddau cryfaf oedd cymorth i ehangu mynediad a chyfranogiad a datblygu polisi ac ymgynghori. Y gweithgareddau gwannaf oedd cymorth ar gyfer gwella ymchwil a chymorth ar gyfer arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli.

2.23 Roedd gan leiafrif sylweddol o ymatebwyr farn negyddol am effeithiolrwydd CCAUC mewn nifer o weithgareddau. Dyma'r themâu ynglŷn â'r meysydd negyddol hyn a ddaeth i'r amlwg wrth drafod gydag ymatebwyr:

- Ystyrir nad yw CCAUC yn gallu cynrychioli'r sector i Lywodraeth y Cynulliad am mai Llywodraeth y Cynulliad sy'n rheoli'r arian.
- Ystyrir nad yw CCAUC yn ymroddedig i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli.
- A ddylai CCAUC gymryd rhan mewn darparu cymorth ar gyfer gwella ymchwil. Cafwyd beirniadaeth gan brifysgolion mwy newydd bod CCAUC yn cyfyngu ar eu datblygiad ym maes ymchwil.
- Mae'r bwlch cyllido yng Nghymru o gymharu â Lloegr yn fater pwysig i'w oresgyn wrth wella addysgu a dysgu, ac ni chredir bod CCAUC mewn cysylltiad digonol â'r sector.
- Nid yw CCAUC yn cael ei weld fel y corff priodol i gynorthwyo cysylltiadau gyda busnesau.

Cyswllt ac ymdrin â CCAUC

2.24 Roedd tua 60% o ymatebwyr yn 'fodlon iawn' neu'n 'weddol fodlon' â'r berthynas rhwng eu sefydliad a CCAUC ac ychydig dros 1 o bob 5 yn teimlo bod y berthynas wedi gwella ychydig neu lawer yn well yn 2007.

2.25 Roedd lleiafrif o ymatebwyr am fwy o gyswllt â staff CCAUC. Yr hyn a ofynnwyd amdanynt amlaf oedd cyswllt gyda staff sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi (29%), y Prif Weithredwr (23%) ac Aelodau eraill o'r Cyngor (20%). Mae hyn yn adlewyrchu thema sy'n ymddangos yn gyson trwy'r ymchwil sef y dylai CCAUC fod mewn gwell cysylltiad â'r sector ar lefel bersonol er mwyn datblygu ymddiriedaeth a dealltwriaeth.

Cyfathrebu

2.26 Roedd tri chwarter yr ymatebwyr yn ystyried bod CCAUC yn cyfathrebu'n weddol dda neu'n dda iawn â'u sefydliad.

2.27 Y 5 sianel gyfathrebu a ffafriwyd fwyaf yw cyswllt uniongyrchol gyda staff CCAUC, cylchlythyrau, gwefan, seminarau a chyfarfodydd a'r Daflen Newyddion.

2.28 Cyswllt uniongyrchol gyda staff CCAUC yw'r dull cyfathrebu a ffafrir fwyaf o bell ffordd. Mae sawl rheswm am hyn:

- Ystyrir bod gohebiaeth ysgrifenedig yn gyffredinol yn rhy hir ac yn aneglur.
- Mae cyswllt personol yn gwella dealltwriaeth, yn datrys materion ac yn datblygu ymddiriedaeth
- Nid yw datblygiadau newydd yn cael eu dwyn i sylw'r staff priodol mewn sefydliadau bob amser ac mae cyswllt personol yn rhoi mwy o hyder nad oes dim wedi'i hepgor

2.29 Mae'r Papur Newyddion yn isel ar y rhestr o sianeli cyfathrebu y mae sefydliadu yn eu defnyddio mewn gwirionedd. Mae hyn yn awgrymu y gellir ei wella a'i dargedu'n well.

2.30 Mae'r mwyafrif helaeth (85%) o ymatebwyr o blaid gweld CCAUC yn defnyddio mwy o'r we ar gyfer cyfathrebu; ystyrir yn arbennig bod gohebiaeth e-bost sydd wedi'i thargedu wedi bod o gymorth.

2.31 Ystyrir bod CCAUC yn wael o ran sicrhau sylw yn y cyfryngau, yn enwedig o gymharu â HEFCE. Nid oes barn unfryd ynghylch a ddylai CCAUC geisio cael proffil uwch yn y cyfryngau neu beidio, er bod cefnogaeth sylweddol dros roi cyhoeddusrwydd i'r cyfraniad y mae Addysg Uwch yn ei wneud i Gymru.

2.32 Tra bo hanner yr ymatebwyr yn gweld yr adborth ar eu Cynlluniau Strategol yn weddol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn, mae traean o'r ymatebwyr yn credu'n wahanol. Mae ymatebwyr am weld gwelliant o safbwynt trafodaeth fwy adeiladol ar lefel strategol a thrafodaethau wyneb yn wyneb, nid ymatebion ysgrifenedig yn unig.

2.33 Mae 60% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ychydig eu bod yn gallu rhoi adborth i CCAUC ac ychydig yn llai yn teimlo bod CCAUC yn gweithredu ar yr adborth y mae'n ei dderbyn.

Cyhoeddiadau

2.34 Yn gyffredinol, mae cyhoeddiadau CCAUC yn cael derbyniad da. Mae'r mwyafrif helaeth o ymatebwyr (tua 80%) yn gweld bod cyhoeddiadau ystadegol, canllawiau eglurhaol a chyhoeddiadau sy'n ymwneud â busnes CCAUC yn weddol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

2.35 Tra bod 40% o ymatebwyr yn gweld Adroddiad Blynyddol a Chynllun Corfforaethol CCAUC yn weddol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn, mae bron yr un faint o ymatebwyr yn credu'n wahanol. Yr awgrymiadau allweddol ar gyfer gwelliant yw sicrhau bod y dogfennau yn fwy gweledol a chryno.

Gweithgareddau a pholisïau

2.36 Hoffai cyfran sylweddol o ymatebwyr wybod mwy am amrywiaeth gweithgareddau CCAUC. Ar frig y rhestr mae polisïau ar adolygu cynllunio strategol sefydliadau (55%) gydag AU o fewn AB (45%) ac ariannu cyfalaf (46%) yn dilyn.

2.37 Mae cyfran sylweddol o ymatebwyr hefyd am wybod mwy am gymorth a pholisïau ar gyfer ail-gyflunio a chydweithio (55%), cysylltiadau gyda busnesau a'r gymuned (49%) ac arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli (42%).

Meysydd ar gyfer gwella yn y 3 blynedd nesaf

2.38 Gofynnwyd i ymatebwyr pa feysydd y dylai CCAUC eu nodi yn feysydd allweddol ar gyfer gwella yn ystod y tair blynedd nesaf. Roedd hwn yn gwestiwn agored a derbyniwyd 33 ymateb. Y themâu a ddaeth i'r amlwg oedd:

- Gwella cynrychiolaeth y sector i Lywodraeth y Cynulliad
- Gweithio'n agosach gyda'r sector
- Llai o ficro-reoli
- Parhau i wella cyfathrebu electronig
- Mabwysiadu dull mwy strategol o weithio gyda'r sector yn cynnwys y dull ar gyfer ariannu

Canlyniadau gan Bartneriaid

Enw da

2.39 Mae gan bron i 90% o sefydliadau Partner farn ffafriol yn bennaf neu ffafriol iawn am CCAUC. Mae hanner yr ymatebwyr yn credu bod gan CCAUC enw gweddol dda neu dda iawn ymhlith sefydliadau Cymru. Mae'r farn am Gyngor CCAUC yn debyg. Mae'r rhain yn llawer mwy cadarnhaol na barn y Sefydliadau.

2.40 Mae staff yn cael ymateb da gyda bron i 80% o ymatebwyr yn ystyried bod ansawdd y staff yn weddol dda neu'n dda iawn.

2.41 Mae ychydig dros 80% o ymatebwyr yn gweld CCAUC fel asiant Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda thua 60% yn gweld CCAUC yn eiriolwr i'r sector. Mae hyn yn debyg i farn Sefydliadau Cymru.

2.42 Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr (tua 80%) yn ystyried bod CCAUC yn gweithio mewn partneriaeth â Sefydliadau a chyrff eraill y sector. Mae hyn yn llawer mwy cadarnhaol na barn y Sefydliadau.

Disgrifiadau o CCAUC

2.43 Mae patrwm yr ymatebion yn debyg iawn i Sefydliadau Cymru, ond mae'r farn yn fwy cadarnhaol yn gyffredinol. Ei hygyrchedd a'i effeithiolrwydd sy'n cael y cyfraddau uchaf.

Cyswllt ac ymdrin â CCAUC

2.44 Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr (83%) yn weddol fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r berthynas rhwng eu sefydliad a CCAUC. Mae ychydig dros draean o'r ymatebwyr yn teimlo bod eu perthynas â CCAUC wedi gwella ychydig neu lawer yn well yn 2007. Nid yw'r mwyafrif yn gweld unrhyw newid.

2.45 Roedd barn ymatebwyr ynglŷn â'r hyn y dylai CCAUC ei wneud i wella cysylltiadau yn canolbwyntio ar ddatblygu perthynas, ymddiriedaeth a bod yn agored.

Cyfathrebu

2.46 Roedd tri chwarter yr ymatebwyr yn teimlo bod CCAUC yn cyfathrebu'n lled dda neu'n dda iawn gyda'u Sefydliad.

2.47 Cyswllt uniongyrchol gyda staff yw'r dull cyfathrebu a ffafrir fwyaf o bell ffordd er mwyn dod i wybod am weithgareddau CCAUC gyda'r wefan yn dilyn, er mai anaml iawn y defnyddir hon. Gwelir bod cysylltiadau yn allweddol er mwyn sicrhau bod y cyfathrebu mwy ffurfiol yn cael ei ddeall a'i ddehongli'n gywir.

2.48 Byddai'r wefan yn cael ei defnyddio'n amlach os byddai'n fwy hygyrch a'r cynnwys yn symlach. Mae'n ymddangos bod lle i gael gwell Taflen Newyddion; nid oedd ymatebwyr yn glir bob amser bod un ar gael.

2.49 Mae newid i gyfathrebu ar y we yn cael ei groesawu. Rodd bron i 90% o ymatebwyr yn ystyried bod hyn yn weddol ffafriol neu'n ffafriol iawn.

2.50 Roedd partneriaid, fel Sefydliadau, hefyd yn gweld nad oedd gan CCAUC bresenoldeb da yn y cyfryngau. Eto, yn debyg i Sefydliadau nid oes barn unfryd ynghylch a ddylai CCAUC geisio cael proffil uwch. Serch hynny, mae mwy o gytundeb ynglŷn â'r angen i hyrwyddo'r cyfraniad mae AU yn ei wneud i Gymru.

2.51 Mae 60% o ymatebwyr yn cytuno ychydig neu'n cytuno'n gryf eu bod yn gallu rhoi adborth i CCAUC ar ei waith. Mae bron i ddwy ran o dair o ymatebwyr yn cytuno ychydig neu'n cytuno'n gryf y bydd CCAUC yn gweithredu ar yr adborth y mae'n ei dderbyn.

Cyhoeddiadau

2.52 Ystyrir bod y rhan fwyaf o gyhoeddiadau yn weddol ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Mae'r sylwadau am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Strategol yn fwy negyddol nag ar gyfer meysydd eraill.

Gweithgareddau a pholisïau

2.53 Hoffai tua 40% o ymatebwyr wybod mwy am weithgareddau CCAUC mewn sawl maes. Mae'r rhain yn cynnwys Addysg Uwch o fewn Addysg Bellach, Polisïau ar adolygu cynllunio strategol Sefydliadau a dulliau cyllido ar gyfer addysgu ac ymchwil.

2.54 Hoffai nifer fawr o ymatebwyr wybod mwy am bolisïau a chymorth ar gyfer cysylltiadau gyda busnesau a'r gymuned (67%), ac ar gyfer arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli (56%). Roedd nifer cymharol uchel (tua 30% i 40%) eisiau mwy o wybodaeth am feysydd polisi a chymorth eraill.

Meysydd ar gyfer gwella yn y 3 blynedd nesaf

2.55 Cafwyd 25 ymateb i'r cwestiwn agored hwn. Y prif themâu i ddod i'r amlwg oed gweithio'n agosach gyda'r Cynghorau Sgiliau a gwell cyfathrebu.

3. Methodoleg

3.1 Cyflawnwyd yr arolwg mewn dau gam. Y cam cyntaf oedd arolwg ar-lein o sefydliadau a Phartneriaid yng Nghymru a Phartneriaid mewn mannau eraill yn y DU.

3.2 Yr ail gam oedd cyfres o gyfweliadau ffôn lled strwythuredig a oedd yn edrych ar faterion a oedd yn codi yn sgil yr arolwg ar-lein.

Holiadur ar-lein

3.3 Datblygwyd holiaduron ar gyfer:

- Sefydliadau AU yng Nghymru
- Partneriaid yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU

3.4 Roedd yr holiaduron yn seiliedig ar arolygon tebyg a gyflawnwyd gan HEFCE yn Lloegr a'r SFC yn yr Alban, fel y gallai CCAUC gael meincnod i'w gymharu â sefydliadau tebyg. Lluniodd CCAUC yr holiaduron sylfaenol ac addasodd Strategic Marketing rhywfaint arnynt. Fersiwn syml o holiadur y sefydliadau oedd yr holiadur i Bartneriaid yn y bôn.

3.5 Roedd y ddau holiadur ar gael fel copi caled yn hytrach nag ar-lein os oedd angen. Roedd holiadur y sefydliadau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd fformatau cwbl hygyrch ar gael hefyd.

Cyfweliadau ffôn dilynol

3.6 Yn yr holiaduron ar-lein, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddynt yn barod i gymryd rhan mewn cyfweliad ffôn dilynol. Cytunodd tua hanner ymatebwyr y sefydliadau a thri chwarter o'r partneriaid.

3.7 Datblygwyd canllawiau pwnc mewn cydweithrediad â CCAUC ar gyfer sefydliadau a Phartneriaid. Nod y canllawiau pwnc oedd edrych ar rai o'r materion a oedd yn codi o ganlyniadau cyfunol yr arolwg ar-lein (meintiol).

3.8 Roedd y cwestiynau yn tueddu i ganolbwyntio ar feysydd canlyniadau negyddol a lle'r oedd canlyniadau yn dangos safbwyntiau gwahanol – rhai negyddol a chadarnhaol.

3.9 Fel arfer, roedd y cyfweliadau gyda sefydliadau yn para tua 40 munud a'r cyfweliadau gyda Phartneriaid yn para 15 i 20 munud.

Sampl ac Ymatebion Ar-lein

3.10 Darparodd CCAUC restr o gysylltiadau gyda chyfeiriad e-bost a rhifau ffôn ar gyfer yr arolwg ar-lein. E-bostiwyd y cysylltiadau gyda chais iddynt gymryd rhan ynghyd â dolen i'r holiadur ar-lein.

3.11 Anfonwyd e-bost yn atgoffa'r rhai oedd heb ymateb bythefnos ar ôl dosbarthu'r holiadur. Rhoddwyd galwad ffôn iddynt i'w hatgoffa yr wythnos ganlynol.

3.12 Mae'r cyfraddau ymateb yn y tabl isod.

Categori	**Nifer y Cysylltiadau**	**Nifer yr Ymatebion**	**Cyfradd Ymateb**
Sefydliadau	92	65	71%
Partneriaid	82	48	59%
CYFANSWM	**174**	**113**	**65%**

Sampl o Gyfweliad Dilynol

3.13 Cyn i'r ymchwil ddechrau enwebodd CCAUC 36 o unigolion cyswllt mewn sefydliadau a 14 mewn sefydliadau Partner yr oeddynt am eu cyfweld. Cyfwelwyd 26 o unigolion cyswllt mewn Sefydliadau a 10 mewn Partneriaid.

3.14 Roedd nifer o'r unigolion a enwebwyd naill ai heb gwblhau'r holiadur ar-lein neu wedi gwrthod cael eu cyfweld am yr holiadur. Roedd hyn yn gostwng y cyfanswm posibl ar gyfer y cyfweliadau dilynol i 48, yn cynnwys 28 a oedd wedi cytuno i gael cyfweliad ac 20 na wnaeth gwblhau'r holiadur ar-lein.

Amserlen y Gwaith Maes

3.15 Cynhaliwyd y gwaith maes ar-lein rhwng mis Hydref 2007 a dechrau mis Rhagfyr. Cynhaliwyd y cyfweliadau ffôn dilynol ym mis Chwefror a Mawrth 2008. Mae amserlen fanwl yn y tabl isod.

Dyddiad	**Gweithgaredd**
	Arolwg Ar-lein
15 – 29 Hydref	Rhoi'r holiaduron ar-lein a'u profi
W/D 29 Hydref	Dosbarthu holiaduron ar-lein
W/D 12 Tachwedd	Anfon e-bost atgoffa
W/D 19 Tachwedd	Galwad ffôn i atgoffa
29 Tachwedd	Cau'r arolwg ar-lein
	Cyfweliadau Ffôn
Ionawr/Chwefror	Datblygu canllaw holiadur/pwnc
Chwefror/Mawrth	Cynnal cyfweliadau

4. Cynllun y Dadansoddiad a'r Adroddiad

4.1 Wrth ddehongli'r canfyddiadau mae'n bwysig cofio bod y canlyniadau yn seiliedig ar sampl o Sefydliadau a sefydliadau Partner CCAUC, nid y boblogaeth gyfan. O ganlyniad, mae'r canlyniadau yn amodol ar oddefiannau'r sampl. Mae'r samplau yn gymharol fach mewn termau ystadegol, ond yn cynrychioli cyfran uchel o'r boblogaeth a samplwyd.

4.2 Dangosir dosbarthiad teitlau swyddi'r ymatebwyr fel rhan o'r dadansoddiad.

4.3 Rhennir y dadansoddiad yn ddwy adran:

- Adran 5 – Y sefydliadau
- Adran 6 – Y partneriaid

4.4 Mae'r ddwy adran yn cyfuno canlyniadau'r arolwg ar-lein a'r cyfweliadau ffôn dilynol.

4.5 Casglwyd rhywfaint o ddata ansoddol yn yr arolwg ar-lein.

4.6 Casglodd yr arolwg ffôn dilynol gyfoeth o wybodaeth, gyda rhywfaint ohoni'n anodd ei chrynhoi heb golli'r ystyr.

4.7 Dadansoddir yr ymatebion i bob cwestiwn yn y drefn y maent yn ymddangos ar yr holiadur ar-lein.

4.8 Cyflwynir canlyniadau ar ffurf siart gyda maint y sampl wedi'i ddangos o dan bob siart.

5. Arolwg o Sefydliadau

Ymwybyddiaeth o CCAUC a chyrff eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch

C1. Pa mor dda yw'ch gwybodaeth am waith CCAUC ac am waith cyrff eraill a restrir isod sydd hefyd yn gysylltiedig ag addysg uwch?

5.1 Yn y siart isod mae'r sefydliadau wedi'u rhestru gyda'r rhai y mae pobl yn gwybod llawer amdanyn nhw ar y brig i lawr i'r rhai sy'n llai adnabyddus.

5.2 CCAUC yw'r sefydliad y mae ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gwybod fwyaf am y gwaith y mae'n ei gyflawni, er eu bod yn ymwybodol iawn o nifer o sefydliadau sefydledig eraill.



Sail 65

Barn gyffredinol am CCAUC a chyrff eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch

C2. O ran y sefydliadau hynny rydych chi'n gwybod o leiaf rhywfaint amdanyn nhw, nodwch pa mor ffafriol yw eich barn neu eich argraff gyffredinol am bob un.

5.3 Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn am y sefydliadau hynny roedden nhw'n gwybod o leiaf 'ychydig' amdanyn nhw. Mae'r sampl sylfaenol felly yn amrywio yn ôl sefydliadau. Cyflwynir y canlyniadau yn yr un drefn â C1 felly mae maint y samplau yn fwy ar frig y rhestr ac yn amrywio o 65 i 25.

5.4 CCAUC sy'n cael ei ystyried yn fwyaf ffafriol yn gyffredinol. Roedd 74% o ymatebwyr yn ystyried bod CCAUC yn ffafriol iawn neu'n ffafriol ar y cyfan

5.5 DCELLS a HERO sy'n cael y cyfraddau isaf.



Sail 25 – 65 (ac eithrio gwybod dim neu hen glywed sôn amndano)

C3. Beth yw eich barn am CCAUC mewn perthynas â'r gwasanaeth y maen nhw'n ei ddarparu i'ch sefydliad, o gymharu â chyrff eraill sy'n gyfarwydd i chi?

5.6 Mae CCAUC yn cael ei ystyried yn sefydliad sy'n cyflawni'n dda o gymharu â sefydliadau eraill o ran y gwasanaeth a ddarperir - mae 54% yn ystyried bod CCAUC yn 'uwch na'r cyfartaledd' neu'n 'un o'r goreuon'



Sail 65

Canfyddiadau am CCAUC

C4. Gan feddwl am swyddogaeth gyfredol CCAUC, pa mor gryf ydych chi'n cytuno â phob un o'r datganiadau canlynol?

5.7 Mae dros 80% o ymatebwyr yn gweld CCAUC fel asiant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, mae ychydig dros 50% o ymatebwyr hefyd yn ystyried CCAUC yn eiriolwr neu'n llefarydd dros y sector AU.

5.8 Mae nifer o feysydd lle ceir gwahaniaeth barn neu nifer sylweddol o ymatebwyr sydd â barn gyferbyniol.

5.9 Mae bron yn union yr un nifer o ymatebwyr yn cytuno ac yn anghytuno â'r datganiadau sy'n ymwneud â CCAUC mewn dau faes:

- Mae CCAUC yn ystyried effeithiau ei ofynion ar adnoddau sefydliadau
- Corff rheoleiddio yn bennaf yw CCAUC

5.10 Yn y pedwar maes arall mae lleiafrif sylweddol o ymatebwyr yn anghytuno â'r sylwadau:

- Mae CCAUC yn ystyried amrywiaeth y sefydliadau wrth ddyrannu cyllid

- Mae CCAUC yn datblygu fwyfwy i fod yn asiantaeth gynllunio
- Mae CCAUC yn gweithio mewn partneriaeth â'r sefydliadau a ariennir ganddo
- Mae CCAUC yn eiriolwr neu'n llefarydd dros y sector AU



Sail 65

5.11 Yn y cyfweliadau dilynol gofynnwyd nifer o gwestiynau er mwyn ceisio deall pam fod gan bobl safbwyntiau gwahanol am:

- Eiriolaeth i'r sector
- Statws fel corff rheoleiddio
- Ystyried effeithiau gofynion ar sefydliadau

Pam nad yw rhai pobl yn ystyried bod CCAUC yn eiriolwr AU

5.12 Mynegodd sawl ymatebwr y farn na all CCAUC fod yn eiriolwr dros AU am ei fod ganddo gysylltiad agos â chyflawni polisïau Llywodraeth y Cynulliad - yn fwy felly na HEFCE yn Lloegr. Fodd bynnag, roeddynt yn ystyried bod gan CCAUC gyfrifoldeb i fod yn eiriolwr. Roedd y safbwyntiau negyddol hefyd yn ymwneud â diffyg effeithiolrwydd fel eiriolwr i'r sector.

CCAUC fel corff rheoleiddio

5.13 I ryw raddau efallai mai'r rheswm am y gwahanol safbwyntiau yw'r gwahaniaeth yn y dehongliad o 'rheoleiddio'. Mae nifer o sylwadau gan ymatebwyr sy'n ystyried bod CCAUC yn gorff reoleiddio yn cyfeirio at y monitro craff a'r micro-reoli.

Pam fod yna wahaniaeth barn ynglŷn ag a yw CCAUC yn ystyried effeithiau ei ofynion ar adnoddau sefydliad.

5.14 Mae nifer o ymatebwyr o'r farn, o bosibl bod CCAUC yn deall effaith ei ofynion ond bod rhaid iddo weithredu penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad. Bydd rhai ymatebwyr yn credu nad yw CCAUC yn ystyried ei ofynion: bydd eraill yn fwy hael ac yn ystyried bod CCAUC yn dilyn cyfarwyddiadau.

5.15 Yn amlwg, mae yna enghreifftiau lle mae'n ymddangos bod CCAUC wedi ystyried adnoddau sefydliadau ac eraill lle nad yw wedi gwneud hynny. Bydd barn ymatebwyr yn dibynnu ar eu profiadau da neu ddrwg diweddar.

5.16 Gall maint y sefydliad fod yn bwysig hefyd, o ran bod sefydliadau llai yn gallu wynebu baich anghymesur o gymharu â rhai mwy.

C5. Dyma rai ymadroddion neu ansoddeiriau a all ddisgrifio CCAUC neu beidio. Gan feddwl am CCAUC yn gyffredinol, dewiswch y cylch sydd agosaf at eich barn ar y raddfa isod.

5.17 Yn y rhan fwyaf o'r disgrifiadau am CCAUC mae yna fwy o safbwyntiau cadarnhaol na negyddol, ond mae yna rai safbwyntiau negyddol sylweddol a grŵp mwy hyd yn oed o ymatebwyr amhleidiol.

5.18 Yr eithriadau yw bod CCAUC yn cael ei weld fel corff biwrocrataidd sy'n araf i newid.



Sail 65

5.19 Yn y cyfweliadau dilynol gofynnwyd nifer o gwestiynau er mwyn ceisio deall pam bod yna safbwyntiau negyddol am CCAUC o ran bod pobl yn ei weld yn:

- Fiwrocrataidd
- Araf i newid
- Anhyblyg
- Heb fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd mewn sefydliadau y mae'n eu hariannu
- Heb fod yn dryloyw

Mae CAUCC yn fiwrocrataidd

5.20 Dywedodd nifer o ymatebwyr y gellid disgwyl biwrocratiaeth o ystyried natur tasgau CCAUC a'i berthynas gyda Llywodraeth y Cynulliad.

Enghreifftiau o Fiwrocratiaeth

5.21 Y broses archwilio, dyrannu a monitro cyllid ac ariannu sydd fwyaf biwrocrataidd. Ystadau a Chaffael yw'r meysydd lleiaf biwrocrataidd

Mae CCAUC yn araf i newid

5.22 Roedd yr ymatebion i'r mater hwn yn tueddu i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed ynglŷn â biwrocratiaeth. Mae'n ymddangos bod hyn yn anochel i raddau ac nid oedd pawb a ymatebodd yn ystyried bod 'yn araf i newid' yn rhywbeth negyddol o ystyried swyddogaeth CCAUC.

Mae CCAUC yn anhyblyg

5.23 Mae nifer o ymatebwyr yn gweld yr anhyblygrwydd fel elfen o reolaeth Llywodraeth y Cynulliad. Cyfeiriodd sawl ymatebwr yn ôl at eu sylwadau ar fiwrocratiaeth hefyd.

Nid yw CCAUC yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd mewn sefydliadau a ariennir ganddo

5.24 Un thema allweddol yn y sylwadau negyddol yw'r canfyddiad nad yw CCAUC yn deall y modd y mae'r sefydliadau a ariennir ganddo'n gweithredu.

Nid yw CCAUC yn dryloyw

5.25 Ystyrir bod sefyllfa CCAUC rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r sefydliadau yn rheswm allweddol am y diffyg tryloywder. Mae'r diffyg adborth a chyfiawnhad am benderfyniadau yn faterion eraill.

C6. O'ch gwybodaeth a'ch profiad o CCAUC, beth yw'ch barn am bob un o'r canlynol?

5.26 Mae dwy ran o dair o ymatebwyr yn ystyried bod staff CCAUC yn weddol dda neu'n dda iawn.

5.27 Mae 37% yn ystyried bod y sylw y mae CCAUC yn ei gael yn y cyfryngau yn weddol wael neu'n wael iawn – mwy na dwywaith yr 16% sy'n ystyried bod y sylw yn dda neu'n dda iawn.

5.28 Mae bron i draean o ymatebwyr yn ystyried bod effeithiolrwydd cyngor CCAUC yn dda iawn neu'n weddol dda, ond nododd nifer tebyg nad oeddynt yn gwybod.

5.29 Dim ond 30% o ymatebwyr sy'n ystyried bod enw CCAUC ymhlith sefydliadau yn dda yn gyffredinol gyda 22% yn ystyried ei fod yn wael. Mae yna nifer fawr o bleidleiswyr anwadal hefyd.



Sail 65

5.30 Yn y cyfweliadau dilynol gofynnwyd nifer o gwestiynau i geisio deall pam fod yna safbwyntiau negyddol am CCAUC mewn perthynas â:

- Sylw yn y cyfryngau
- Enw da CCAUC ymhlith sefydliadau

Beth a olygir wrth sylw gwael yn y cyfryngau?

5.31 Dywedodd nifer sylweddol o bobl nad oedden nhw braidd byth, os o gwbl, yn clywed sôn am CCAUC yn y wasg. O gymharu mae yna ganfyddiad bod HEFCE yn cael sylw da yng ngwasg genedlaethol y DU ac yn llawer mwy rhagweithiol ar ran sefydliadau.

5.32 Nid oedd barn unfryd o ran a ddylai CCAUC fod yn fwy amlwg yn y cyfryngau.

Pa fath o sylw yn y cyfryngau y mae pobl am ei gael

5.33 Roedd ymatebwyr am sylw a oedd yn hyrwyddo'r cyfraniad y mae AU yn ei wneud i economi Cymru. Roedd rhai hefyd am i fater y bwlch cyllido gael ei godi ar gyfer trafodaeth gyhoeddus.

Enw da CCAUC ymhlith sefydliadau AU

5.34 Mae'r rhesymau pam bod rhai ymatebwyr yn ystyried nad oes gan CCAUC enw da yn cael eu hadlewyrchu yn y materion a drafodwyd yn gynharach yn C5.

C7. Yn seiliedig ar fy mhrofiad i, mae gen i gyfle i roi adborth i CCAUC ar y gwaith mae'n ei gyflawni.

5.35 Roedd 60% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu i raddau bod ganddyn nhw gyfle i roi adborth i CCAUC ar ei waith. Mae hyn yn llawer mwy na'r 14% sy'n anghytuno.



Sail 65

C8. Yn seiliedig ar fy mhrofiad i, dwi'n teimlo bod CCAUC yn gweithredu (neu y bydd yn gweithredu) ar yr adborth mae'n ei gael gan rhanddeiliaid a phartneriaid allanol.

5.36 Mae 55% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu i raddau bod CCAUC yn gweithredu neu y bydd yn gweithredu ar adborth y mae'n ei gael gan randdeiliaid a phartneriaid.



Sail 65

Gwasanaeth a chymorth gan CCAUC

C9. Beth yw'ch barn am lefel gyfredol y gwasanaeth a'r cymorth rydych chi'n ei gael gan CCAUC o ran pob un o'r canlynol?

5.37 Mae maint y sampl yn amrywio o 41 i 54 oherwydd i ni beidio â chynnwys yr ymatebwyr a oedd yn teimlo nad oedd maes staff yn berthnasol iddyn nhw.

5.38 Mae nifer y rhai a atebodd 'ddim yn gwybod' yn syndod o uchel ac efallai yn cynnwys ymatebwyr a ddylai fod wedi datgan nad yw'r maes gwasanaeth yn berthnasol.

5.39 Mae lefel y gwasanaeth yn dda ar y cyfan ymysg yr ymatebwyr a roddodd farn. Mae 40% yn ystyried bod y rhan fwyaf o feysydd staff yn dda iawn neu'n weddol dda. Nifer fach o ymatebwyr sy'n anfodlon â'r gwasanaeth.



Base 41 -54 (heb gynnwys nid yn berthnasol)

C10. Gan ystyried eich sefydliad, i ba raddau rydych chi'n teimlo bod yr agweddau canlynol ar weithgareddau CCAUC yn cael eu cyflawni'n effeithiol?

5.40 Mae maint y sampl ar gyfer pob maes staff yn amrywio am na wnaethon ni gynnwys yr ymatebwyr hynny a oedd yn teimlo nad oedd y maes penodol yn berthnasol iddyn nhw. Mae maint y sampl yn amrywio o 54 i 62 o ymatebwyr.

5.41 Mae 60% neu fwy o ymatebwyr yn ystyried bod CCAUC yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn effeithiol gyda nifer fach o ymatebwyr yn unig yn ystyried nad yw CCAUC yn effeithiol.

5.42 Y maes gwannaf yw dadansoddi ac adborth ar gynlluniau strategol sefydliadau lle'r oedd cyfran cymharol uchel o ymatebwyr (31%) yn ystyried bod CCAUC yn aneffeithiol.

5.43 Eto mae lefelau uchel syfrdanol yn ateb 'ddim yn gwybod' ar gyfer y mwyafrif o feysydd.



Sail 54 - 62

5.44 Yn y cyfweliadau dilynol gofynnwyd am y safbwyntiau negyddol am CCAUC mewn perthynas â dadansoddi ac adborth ar gynlluniau strategol sefydliadau.

Nid yw dadansoddi ac adborth ar gynlluniau strategol sefydliadau yn effeithiol iawn neu'n effeithiol o gwbl

5.45 Y pwyntiau allweddol a wnaed oedd nad oedd yr adborth yn adeiladol a'i fod yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion ymylol. Ystyriwyd bod yr adborth yn rhy hwyr i fod o unrhyw ddefnydd.

5.46 Roedd nifer o ymatebwyr yn amau a ddylai CCAUC fod yn cymryd rhan o gwbl yn y gwaith o adolygu cynlluniau sy'n un o gyfrifoldebau sefydliadau

C11. A yw'r meysydd gwasanaeth canlynol y mae CCAUC yn eu darparu i'ch sefydliad wedi gwella, aros yr un fath neu wedi gwaethygu yn ystod y 12 mis diwethaf?

C14 I ba raddau rydych chi'n teimlo bod y gwasanaeth y mae CCAUC yn ei ddarparu i'ch sefydliad wedi gwella neu waethygu yn ystod y 12 mis diwethaf?

5.47 Dywedodd cyfran cymharol fechan o ymatebwyr bod gwasanaeth CCAUC wedi gwella mewn sawl maes. Fodd bynnag, mae bron i 40% yn meddwl bod y gwasanaeth wedi gwella ychydig yn gyffredinol. Gwnaed y gwelliant mwyaf sylweddol yn y cyswllt wyneb yn wyneb a'r defnydd o gyfathrebu electronig.

5.48 Fodd bynnag, mae bron i draean (31%) yr ymatebwyr yn credu bod y baich gweinyddol ar eu sefydliad wedi cynyddu.



Sail 65



Sail 65

Enghreifftiau o gynnydd mewn baich gweinyddol

5.49 Yn y cyfweliadau dilynol gofynnwyd am enghreifftiau o ble mae baich gweinyddol wedi cynyddu. Dyma rai enghreifftiau:

- Yr angen am strategaethau unigol i gyflwyno i CCAUC yn cynyddu
- Gormod o fentrau isel eu gwerth
- Gormod o geisiadau am wybodaeth am fentrau
- Mae'r swyddogaeth archwilio yn fwy o faich nac yn Lloegr

C12. Os ydych chi'n credu bod unrhyw rai o'r meysydd uchod (C11) wedi gwella yn y 12 mis diwethaf allwch chi fanylu?

5.50 Roedd cwestiwn 12 yn gofyn am ymateb testun rhydd heb unrhyw awgrymiadau. Y meysydd a welodd welliant sylweddol oedd:

- Gwell cyfathrebu electronig
- Mwy o gyswllt a chyfranogiad personol

C13. Os ydych chi'n credu bod unrhyw rai o'r meysydd uchod (C11) wedi dirywio yn ystod y 12 mis diwethaf, allech chi roi enghreifftiau?

5.51 Roedd cwestiwn 13 yn gofyn am ymateb testun rhydd heb unrhyw awgrymiadau. Rhestrir yr ymatebion isod. Nid oes unrhyw themâu amlwg, ond mae'r meysydd a grybwyllir yn cael eu hailadrodd mewn rhannau eraill o'r arolwg, yn enwedig y duedd i ficro-reoli.

5.52 Yn y cyfweliadau ffôn dilynol gofynnwyd ar ba agweddau ar y gwasanaeth y dylai CCAUC ganolbwyntio ei sylw er mwyn parhau i wella gwasanaeth i'w sefydliad.

5.53 Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd datblygu cysylltiadau personol ac ymgysylltu mwy â'r sector.

C15. Gan feddwl am y sector AU cyfan, i ba raddau ydych chi'n credu bod yr agweddau canlynol ar weithgareddau CCAUC yn cael eu cyflawni'n effeithiol?

5.54 Dyma'r meysydd mwyaf effeithiol:

- Cymorth ar gyfer ehangu mynediad a chyfranogiad
- Datblygu polisi ac ymgynghori

5.55 Dyma'r meysydd lleiaf effeithiol:

- Cymorth ar gyfer gwella ymchwil – mae yna fwy o safbwyntiau negyddol na rhai cadarnhaol.
- Cymorth ar gyfer arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli

5.56 Mae yna leiafrif sylweddol o safbwyntiau negyddol mewn sawl maes.

5.57 Dylai'r gyfran o atebion 'ddim yn gwybod' a 'dim barn' achosi pryder i CCAUC.


C15 - I ba raddau ydych chi'n credu bod gweithgareddau CCAUC yn cael eu cyflawni'n effeithiol i'r sector yn gyffredinol?
Cymorth ar gyfer cysylltiadau gyda busnesau a'r gymuned ("trydedd genhadaeth")
Cymorth ar gyfer gwella dysgu ac addysgu
Cymorth ar gyfer gwella ymchwil
Cymorth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg
Cymorth ar gyfer ehangu mynediad a chyfranogiad
Cymorth ar gyfer cyngor ac arweiniad ar gydraddoldeb ac amrywiaeth
Cymorth ar gyfer ail-gylchu a chydweithio
Cymorth ar gyfer arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli
Cymorth ar gyfer datblygiad strategol sefydliadau
Mynegi materion sy'n destun pryder i addysg uwch i Lywodraeth Cynulliad Cymru
Datblygu polisi ac ymgynghori
0%
20%
40%
60%
80%
100%
Effeithiol iawn
Gweddol effeithiol
Ddim yn effeithiol iawn
Ddim yn effeithiol o gwbl
Ddim yn gwybod
Dim barn

Sail 65

5.58 Dim ond 7 ymateb a dderbyniwyd i'r cwestiwn agored 'unrhyw feysydd arall y mae angen i CCAUC roi sylw iddyn nhw? Dyma dri chais allweddol:

- Anghydraddoldeb mecanweithiau cyllido rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban.
- Cefnogaeth ar gyfer gwella ymchwil. Nid oes gan CCAUC ddigon o staff sydd â'r profiad perthnasol i gynghori.
- Cefnogaeth barhaus i wella ymgysylltiad busnes.

5.59 Yn y cyfweliadau ffôn dilynol gofynnwyd am sylwadau ar y rheswm pam roedd gan rai ymatebwyr safbwyntiau negyddol am:

- Cynrychioli materion sy'n destun pryder i AU i Lywodraeth y Cynulliad
- Cymorth ar gyfer arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli
- Cymorth ar gyfer gwella ymchwil
- Cymorth ar gyfer gwella dysgu ac addysgu
- Cymorth ar gyfer cysylltiadau gyda busnesau a'r gymuned

Cynrychioli materion sy'n destun pryder i AU i Lywodraeth y Cynulliad

5.60 Roedd yn ymddangos mai'r brif thema oedd nad oedd gan CCAUC unrhyw bŵer gweledol i gynrychioli'r sector i Lywodraeth y Cynulliad am mai Llywodraeth y Cynulliad sy'n rheoli'r arian.

Cymorth ar gyfer arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli

5.61 Mae'n ymddangos mai'r brif thema yw'r ffaith nad yw CCAUC wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyn.

Cymorth ar gyfer gwella ymchwil

5.62 Ychydig o sylwadau a gafwyd ar y maes hwn. Roedd rhai ymatebwyr yn holi a oedd hyn yn rhan o swyddogaeth CCAUC. Mae rhai prifysgolion yn canolbwyntio mwy ar addysgu ac nid oedd ganddyn nhw sylwadau i'w cyflwyno.

5.63 Cafwyd nifer o sylwadau gan brifysgolion mwy newydd ynglŷn â diffyg cymorth gan CCAUC i ymchwil yn y sefydliadau hyn.

Cymorth ar gyfer gwella dysgu ac addysgu

5.64 Mae cyllido yn fater negyddol allweddol yn ogystal â'r ffaith nad yw CCAUC i'w weld yn ymgysylltu'n ystyrlon gyda'r sector.

Cymorth ar gyfer cysylltiadau gyda busnes a'r gymuned

5.65 Nid yw CCAUC yn cael ei ystyried fel bod ganddo'r arbenigedd i gynorthwyo.

C17. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod darpariaeth CCAUC ar gyfer y sector AU wedi gwella neu waethygu yn ystod y 12 mis diwethaf?

5.66 Mae bron i chwarter (23%) yr ymatebwyr yn teimlo bod y gwasanaeth i'r sector AU cyfan wedi gwella ychydig yn ystod y 12 mis diwethaf ond mae 6% yn meddwl ei fod wedi gwaethygu ychydig.



Sail 65

Cyswllt ac ymdrin â CCAUC

C18. Pa rai o'r meysydd canlynol yn CCAUC fyddech chi'n hoffi cael mwy o gyswllt â nhw? (TICIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL)

5.67 Nid yw ychydig dros chwarter yr ymatebwyr am gael mwy o gyswllt gyda staff CCAUC.

5.68 Mae'r bobl sydd am gael mwy o gyswllt gyda staff sy'n gyfrifol am wasanaethau dadansoddi yn tueddu i ffafrio gweinyddu a chyllid.

5.69 Staff uwch yn bennaf oedd y rhai oedd am fwy o gyswllt gyda staff sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi, y Prif Weithredwr, aelodau'r Cyngor a'r Cadeirydd - Is-ganghellor, Pennaeth, Pennaeth Cyfadran ac ati.

5.70 Mae'r ceisiadau am fwy o gyswllt yn adlewyrchu safbwynt a fynegwyd yn gyson gan lawer o ymatebwyr o ran ymgysylltu â CCAUC ar lefel bersonol. Mae angen i CCAUC ymgysylltu gyda'r sector ar lefel emosiynol. Gwelir bod cyswllt personol yn allweddol i wella ymddiriedaeth a dealltwriaeth.

5.71 Ystyrir bod angen 'dehongli' gohebiaeth ffurfiol y mae CCAUC yn ei dosbarthu a dim ond trwy gyswllt personol y gellir gwneud hyn yn aml.



Sail 65

C19. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'r berthynas rhwng eich sefydliad a CCAUC?

5.72 Mae 60% o ymatebwyr yn weddol fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r berthynas rhwng eu sefydliad a CCAUC. Dim ond lleiafrif bychan sy'n anfodlon.



Sail 65

C20. Sut mae'r berthynas hon wedi newid, os o gwbl, yn ystod y 12 mis diwethaf?

5.73 Mae ychydig mwy na 1 o bob 5 (21%) o ymatebwyr yn teimlo bod y berthynas rhwng CCAUC a'u sefydliad wedi gwella ychydig neu lawer yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu gwelliannau tebyg mewn gwasanaethau.



Sail 65

Beth yn fwy ddylai CCAUC ei wneud er mwyn gwella perthynas?

5.74 Yn y cyfweliadau dilynol gofynnwyd beth mwy ddylai CCAUC ei wneud er mwyn parhau i wella perthynas.

5.75 Nid oes gan lawer o ymatebwyr broblem gyda'r berthynas felly roedd sylwadau wedi'u cyfyngu yn gyffredinol i "parhau i weithredu yn yr un ffordd".

5.76 Roedd y sylwadau gan y rhai a oedd am weld gwelliannau yn tueddu i awgrymu cyswllt personol fel rhan o'r ateb:

Cyfathrebu

C21. Beth yw'r prif sianeli rydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd i ddysgu am weithgareddau CCAUC? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

C22. Sut ydych chi am gael y newyddion diweddaraf am weithgareddau CCAUC? (Dewiswch hyd at dri dewis y byddech yn eu ffafrio)

5.77 Y 4 sianel gyfathrebu fwyaf poblogaidd y mae ymatebwyr yn eu defnyddio yw'r 4 sianel y maen nhw'n eu ffafrio hefyd.

5.78 Y Daflen Newyddion yw'r 5ed sianel gyfathrebu sy'n cael ei ffafrio, llawer uwch na'i safle ar y tabl defnyddio. Mae hyn yn awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyslais i'r Daflen Newyddion.



Sail 65



Sail 65

Rhesymau pam fod cyswllt uniongyrchol yn cael ei ffafrio

5.79 Yn y cyfweliadau ffôn dilynol gofynnwyd pam fod cyswllt uniongyrchol gyda staff CCAUC mor bwysig. Ai am fod angen mwy o wybodaeth? A oedd yn adlewyrchu bod yna ddiffyg gwybodaeth trwy lwybrau eraill? A oedd yn adlewyrchu'r angen am wybodaeth fwy hygyrch trwy lwybrau eraill?

- Mae cyswllt personol yn gwella dealltwriaeth ac yn datblygu ymddiriedaeth
- Mae gohebiaeth ysgrifenedig CCAUC yn cael ei ystyried yn rhy hir ac aneglur
- Nid yw datblygiadau newydd yn cael eu dwyn i sylw uniongyrchol y bobl briodol

C23. Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael y mae CCAUC yn cyfathrebu gyda'ch sefydliad?

5.80 Roedd tri chwarter (76%) yr ymatebion yn teimlo bod CCAUC yn cyfathrebu'n weddol dda neu'n dda iawn gyda'u sefydliad.


C23 - Pa mor dda neu wael y mae CCAUC yn cyfathrebu gyda'ch sefydliad?
Ddim yn gwybod
Gwael iawn
Gweddol wael
Gweddol dda
Da iawn
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%

Sail 65

C24. Mae CCAUC yn gynyddol newid i gyfathrebu ar y we ac yn electronig. Beth yw eich barn chi am hyn?

5.81 Mae 85% o ymatebwyr yn ystyried bod defnydd cynyddol CCAUC o gyfathrebu ar y we yn weddol ffafriol neu'n ffafriol iawn.



Sail 65

C25. Pa mor ddefnyddiol ydych chi'n bersonol yn ystyried y canlynol?

5.82 Mae'r mwyafrif helaeth o ymatebwyr yn ystyried bod cyhoeddiadau ystadegol, canllawiau eglurhaol a chyhoeddiadau sy'n ymwneud â busnes CCAUC yn ddefnyddiol iawn neu'n weddol ddefnyddiol.

5.83 Mae traean yr ymatebwyr yn ystyried bod gwerth am arian a chanllawiau arferion da yn ddefnyddiol, er nad yw lleiafrif (17%) yn eu hystyried yn ddefnyddiol.

5.84 Tra bo dros 40% o ymatebwyr yn ystyried bod Adroddiad Blynyddol neu Gynllun Corfforaethol CCAUC yn ddefnyddiol iawn neu'n weddol ddefnyddiol, nid dyna yw barn lleiafrif sylweddol (tua 40%).

5.85 Mae 52% o ymatebwyr yn ystyried bod 'adborth ar gynlluniau strategol sefydliadau' yn ddefnyddiol iawn neu'n weddol ddefnyddiol ond nid yw 35% yn ystyried bod hyn yn ddefnyddiol iawn neu'n ddefnyddiol o gwbl.

5.86 Mae sail y sampl yn amrywio o 43 i 58 am i ni beidio â chynnwys ymatebwyr a oedd yn nodi nad oedd elfen benodol yn berthnasol.



Sail 43 – 58 (heb gynnwys nid yn berthnasol)

5.87 Yn y cyfweliadau dilynol dros y ffôn gofynnwyd:

- Pa welliannau fyddai pobl yn hoffi eu gweld yng Nghynllun Corfforaethol ac Adroddiad Blynyddol CCAUC
- Pa fath o adborth ar gynlluniau strategol a rhagolygon ariannol sefydliadau fyddai'n fwy defnyddiol

Adroddiad Blynyddol a Chynllun Corfforaethol

5.88 Dywedodd nifer fawr o'r ymatebwyr i'r cyfweliadau ffôn naill ai nad oedden nhw'n gweld y dogfennau hyn, ddim yn eu darllen neu ddim ond yn bwrw golwg sydyn drostyn nhw.

Cynlluniau strategol a rhagolygon ariannol sefydliadau

5.89 Mae ymatebwyr am gael adborth adeiladol ar lefel strategol nid y sylw i fanylder fel y credant sy'n digwydd nawr.

5.90 Hefyd, mae'n well gan sefydliadau gael trafodaeth wyneb yn wyneb nid ymatebion ysgrifenedig yn unig.

C26. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio gwefan CCAUC (www.hefcw.ac.uk)?

5.91 Nid yw'r wefan yn cael ei defnyddio'n aml iawn. Mae hyn yn cadarnhau sylwadau nad yw'r wefan mor ddefnyddiol ag yr hoffai pobl iddi fod.



Sail 65

C27. Pa agweddau ar weithgareddau CCAUC, os o gwbl, fyddech chi'n hoffi cael mwy neu lai o wybodaeth amdanyn nhw?

5.92 Hoffai cyfran sylweddol o ymatebwyr wybod mwy am amrywiaeth eang o weithgareddau CCAUC. Polisïau ar adolygu cynlluniau strategol sefydliadau sydd ar frig y rhestr, gydag AU o fewn AB a chyllid cyfalaf yn dilyn.

5.93 Mewn meysydd eraill, mae'r gyfran o ymatebwyr nad ydyn nhw am newid yn uwch na'r rhai sydd am fwy o wybodaeth. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r ymatebion yn gofyn am fwy o wybodaeth.



Sail 65

5.94 Yn y cyfweliadau ffôn dilynol fe wnaethom edrych ar ba wybodaeth yr oedd pobl am ei chael am:

- Bolisïau ar adolygu cynllunio strategol sefydliadau
- Gweithgareddau cyllido a monitro ariannol
- Addysg Uwch o fewn Addysg Bellach

Polisïau ar adolygu trefniadau cynllunio strategol sefydliadau

5.95 Mae'r prif gais yn gofyn am well dealltwriaeth o'r hyn y mae CCAUC yn edrych amdano mewn cynlluniau a'r meini prawf adolygu.

Gweithgareddau cyllido a monitro ariannol

5.96 Nid oes unrhyw thema arbennig i'r sylwadau.

Addysg Uwch o fewn Addysg Bellach

5.97 Mae'n ymddangos bod hwn yn faes lle mae polisïau'n aneglur neu'n dal i gael eu datblygu, felly mae angen mwy o wybodaeth.

C28. Mae CCAUC yn datblygu polisïau ac yn darparu cymorth mewn amrywiaeth o feysydd. Pa rai o'r canlynol hoffech chi wybod mwy neu lai amdanynt?

5.98 Hoffai cyfran uchel o ymatebwyr wybod mwy am 'ail-gyflunio a chydweithio' (55%), 'cysylltiadau gyda busnesau a'r gymuned' (49%) ac 'arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli' (42%).

5.99 Ar lefel is, ond eto i gyd yn cynrychioli cyfran sylweddol o ymatebwyr, mae angen mwy o wybodaeth am 'addysgu' (31%), 'ymchwil' (28%) ac 'ehangu mynediad a chyfranogiad (29%).

5.100 Mae llai nag 20% o ymatebwyr am fwy o wybodaeth am 'ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' a 'chydraddoldeb ac amrywiaeth'.



Sail 65

5.101 Yn y cyfweliadau dilynol dros y ffôn chwiliwyd i weld pa wybodaeth y gallai CCAUC ei darparu am:

- Arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli
- Ail-gyflunio a chydweithio
- Cysylltiadau gyda busnesau a'r gymuned

Arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli

5.102 Nid yw nifer o sefydliadau yn ystyried bod y maes hwn yn rhan o swyddogaeth CCAUC neu maent yn ystyried bod asiantaethau eraill yn gallu gwneud hyn yn well.

Ail-gyflunio a chydweithio

5.103 Nid yw'r sefydliadau fel pe baen nhw'n gwybod beth yw'r polisi'n iawn ac yn fwy felly ers y newid Gweinidog yn ddiweddar.

Cysylltiadau gyda busnesau a'r gymuned

5.104 Dywedodd nifer o sefydliadau nad oes gan CCAUC brofiad o ddiwydiant ac na ddylai fod yn rhan o'u gwaith.

5.105 Mae sefydliadau yn chwilio am wybodaeth am anghenion diwydiant, gwell cysylltiadau gydag adrannau diwydiant Llywodraeth y Cynulliad ac enghreifftiau o arferion da.

C29. Gan ystyried yr holl feysydd sy'n cael sylw yn yr arolwg, yn eich barn chi beth ddylai fod yn feysydd allweddol i CCAUC eu gwella yn ystod y tair blynedd nesaf?

5.106 Roedd hwn yn gwestiwn agored a chafwyd 33 ymateb. Daeth rhai themâu cyffredinol i'r golwg

Potensial swyddogaeth fel eiriolwr i CCAUC.

"Cynrychioli cymuned AU yn erbyn Llywodraeth y Cynulliad sy'n methu â chydnabod ac felly ymateb i'r bwlch cyllido".

"Parhau i fod yn fwy annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad".

"Arwain newid yn hytrach nag ymateb i chwiw wleidyddol".

"Cyflawni swyddogaeth gliriach yn hyrwyddo AU Cymru nad yw'n cael ei hybu o gymharu ag AU Lloegr a'r Alban".

Llai o ficro reoli.

"Llai o ficro reoli".

"Llai o ficro-reoli symiau bach o arian".

Gwella cyfathrebu electronig

"Gwefan fwy cyfoes"

"Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf a newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn fwy cyson"

Cyllido a Strategaeth

"Datblygu ffrwd ariannu buddsoddiad cyfalaf yn gywir".

"Pennu amcanion mwy tryloyw i'r sector a'r goblygiadau i sefydliadau unigol".

"Unioni cynlluniau strategol a chynlluniau eraill o ran amseru".

"Mae angen i CCAUC ddefnyddio dull mwy strategol gan ddibynnu llai ar fethodolegau cyllido fformiwla".

5.107 Roedd nifer o ymatebwyr yn C29 am i CCAUC fabwysiadu swyddogaeth fel eiriolwr i'r sector. Yn y cyfweliadau ffôn dilynol gofynnwyd "Beth allai CCAUC ei wneud a fyddai'n ddefnyddiol o ystyried bod CCAUC yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad"?

5.108 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n cydnabod bod CCAUC mewn sefyllfa anodd o ran bod yn eiriolwr i'r sector. Fodd bynnag, maen nhw'n gweld bod cyrff cyllido Lloegr ac i raddau yr Alban yn cynrychioli'r sector yn well. Mae proffil isel CCAUC yn destun bryder.

5.109 Mae yna farn y gellid cyflawni mwy pe byddai CCAUC a'r sector yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd.

C30. Pa swydd sydd gennych chi yn eich sefydliad ar hyn o bryd? (Ticiwch un yn unig. Os oes gennych chi fwy nag un swydd, ticiwch y dewis sy'n nodi'ch prif swydd.)

5.110 Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad yr ymatebwyr yn ôl teitl eu swydd.



Sail 65

C31. Fyddech chi'n barod i Strategic Marketing gysylltu â chi eto fel rhan o'r ymarfer hwn? Byddwn ni'n trefnu amser addas i chi gael eich cyfweld dros y ffôn.



Sail 65

6. Arolwg Partneriaid

Ymwybyddiaeth o CCAUC a chyrff eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch.

C1. Pa mor dda ydych chi'n teimlo eich bod chi'n gwybod am waith CCAUC ac am waith cyrff eraill a restrir isod sydd hefyd yn gysylltiedig ag addysg uwch?

6.1 Yn y siart isod mae'r sefydliadau wedi'u rhestru gyda'r rhai y mae pobl yn gwybod llawer amdanyn nhw ar y brig i lawr i'r rhai sy'n llai adnabyddus.

6.2 Y sefydliadau y mae ymatebwyr yn gwybod fwyaf amdanyn nhw yw CCAUC, DCELLS ac UCAS.



Sail 48

Barn gyffredinol am CCAUC a chyrff eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch.

C2. O ran y sefydliadau hynny rydych chi'n gwybod leiaf amdanyn nhw, nodwch pa mor ffafriol yw eich barn neu eich argraff gyffredinol am bob un.

6.3 Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn am y sefydliadau roedden nhw'n gwybod o leiaf 'ychydig amdanyn nhw'. Mae sail y sampl yn amrywio felly yn ôl sefydliad (o 16 i 43) gyda'r sampl mwyaf ar frig y siart. Cyflwynir canlyniadau sefydliadau yn yr un drefn â C1.

6.4 CCAUC sy'n cael ei raddio'n fwyaf ffafriol gydag 89% o ymatebwyr yn ystyried CCAUC yn ffafriol iawn neu'n ffafriol ar y cyfan.



Sail 16- 43 (ac eithrio gwybod dim neu erioed wedi clywed amdanyn nhw)

Canfyddiadau am CCAUC

C3. Gan feddwl am swyddogaeth gyfredol CCAUC, pa mor gryf ydych chi'n yn cytuno â phob un o'r datganiadau canlynol?

6.5 Yn unol â barn sefydliadau, mae 80% o ymatebwyr yn gweld CCAUC fel asiant Llywodraeth Cynulliad Cymru gydag ychydig llai na 60% yn gweld CCAUC fel eiriolwr neu lefarydd dros y sector AU.

6.6 Nid oes barn unfryd o ran a yw CCAUC yn gorff rheoleiddio yn bennaf. Mae 21% o ymatebwyr yn cytuno bod CCAUC yn gorff rheoleiddio yn bennaf tra bo 35% yn anghytuno a bron i 40% heb benderfynu.

6.7 Mae yna farn gref bod CCAUC yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a chyrff eraill y sector.

6.8 Mae yna nifer cymharol uchel o atebion 'dim barn' a 'ddim yn gwybod' i rai datganiadau.



Sail 48

C4. Dyma rai ymadroddion neu ansoddeiriau a all ddisgrifio CCAUC neu beidio. Gan feddwl am CCAUC yn gyffredinol, dewiswch y cylch sydd agosaf at eich barn ar y raddfa isod.

6.9 Mae patrwm yr ymatebion yn debyg iawn i rai sefydliadau.

6.10 Yn y rhan fwyaf o'r disgrifiadau am CCAUC mae yna fwy o safbwyntiau cadarnhaol na negyddol. Yn arbennig, ystyrir bod CCAUC yn hygyrch ac yn effeithiol.

6.11 Mae yna gyfran uchel iawn o farn niwtral, yn enwedig am fiwrocratiaeth.



Sail 48

6.12 Yn y cyfweliadau ffôn dilynol gofynnwyd cwestiynau pellach am y canfyddiadau am fiwrocratiaeth oedd gan 1 o bob 4 Partner.

6.13 Mae Partneriaid yn gyffredinol yn llai beirniadol na sefydliadau; maen nhw'n tueddu i weld hyn fel swyddogaeth weithio gyda'r Llywodraeth.

C5. O'ch gwybodaeth a phrofiad o CCAUC, beth yw'ch barn am bob un o'r canlynol?

6.14 Mae patrwm yr ymatebion yn debyg i rai y sefydliadau ond yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol.

6.15 Mae tri chwarter yr ymatebwyr yn ystyried bod ansawdd staff CCAUC yn dda iawn neu'n weddol dda.

6.16 Mae sylw yn y cyfryngau yn wael – mae 15% o ymatebwyr yn ystyried bod y sylw yn eithaf da, ond 15% yn gweld y sylw yn wael iawn neu'n eithaf gwael.

6.17 Mae yna nifer uchel o atebion 'ddim yn gwybod'.



Sail 46- 48 (heb gynnwys y rhai nad ydyn nw'n berthnasol)

C6 Yn seiliedig ar fy mhrofiad i, mae gen i gyfle i roi adborth i CCAUC ar y gwaith mae'n ei gyflawni.

6.18 Roedd 60% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i raddau bod ganddyn nhw'r cyfle i roi adborth i CCAUC ar ei waith. Mae'r gyfran hon yn cyfateb i gyfran y sefydliadau ond mae mwy o ymatebion 'cytuno'n gryf'.



Sail 48

6.19 Yn y cyfweliadau ffôn dilynol gofynnwyd pa fod 1 o bob 5 Partner yn teimlo nad oedd ganddyn nhw gyfle i roi adborth i CCAUC ar y gwaith y mae'n ei wneud.

6.20 Nid oedd un o'r Partneriaid a gafodd gyfweliad wedi cael profiad o hyn. Roedd pob un wedi cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb a hefyd yn teimlo eu bod yn gallu codi'r ffôn i siarad â CCAUC.

C7. Yn seiliedig ar fy mhrofiad i, dwi'n teimlo bod CCAUC yn gweithredu (neu y bydd yn gweithredu) ar yr adborth mae'n ei gael gan rhanddeiliaid a phartneriaid allanol.

6.21 Mae 64% o ymatebwyr yn cytuno i raddau neu'n cytuno'n gryf bod CCAUC yn gweithredu neu y bydd yn gweithredu ar yr adborth a gaiff gan randdeiliaid a phartneriaid. Does braidd neb yn anghytuno.



Sail 48

Cysylltu ac ymdrin â CCAUC

C8. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'r berthynas rhwng eich sefydliad a CCAUC?

6.22 Mae 83% o ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon â'r berthynas rhwng eu sefydliad a CCAUC. Dim ond lleiafrif bach iawn sy'n anfodlon.



Sail 48

C9. Sut mae'r berthynas hon wedi newid, os o gwbl, yn ystod y 12 mis diwethaf?

6.23 Mae mwy nag 1 o bob 3 ymatebwr (37%) yn teimlo bod y berthynas rhwng eu sefydliad a CCAUC wedi gwella ychydig yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hwn yn fwy o welliant na'r hyn yr oedd sefydliadau wedi'i weld.

6.24 Yn y cyfweliadau ffôn dilynol gofynnwyd beth oedd CCAUC wedi'i wneud sydd wedi arwain at welliant mewn perthynas yn ystod y 12 mis diwethaf a beth ddylai CCAUC wneud mwy ohono i barhau i wella. Roedd themâu allweddol Partneriaid yn ymwneud ag ymgysylltu mwy gyda Phartneriaid a bod yn glir am swyddogaethau a beth sydd angen ei wneud.



Sail 48

6.25 Nid yw'r mwyafrif o ymatebwyr wedi gweld gwahaniaeth yn y berthynas, ond nid oedd hyn o reidrwydd yn sylw negyddol.

Cyfathrebu

C10. Beth yw'r prif sianeli rydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd i ddysgu am weithgareddau CCAUC? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

C11. Sut ydych chi am gael y newyddion diweddaraf am weithgareddau CCAUC? (Dewiswch hyd at dri dewis)

6.26 Y ddwy sianel gyfathrebu fwyaf poblogaidd a ddefnyddir gan ymatebwyr yw ddwy sianel a ffafrir ganddyn nhw.

6.27 Y Daflen Newyddion yw'r 3ydd mwyaf poblogaidd ond hon yw'r 9fed o ran y sianeli a ddefnyddir ar hyn o bryd. Mae hyn yn awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar y Daflen Newyddion.



Sail 48



Sail 48

6.28 Yn y cyfweliadau ffôn dilynol gofynnwyd pam mai cyswllt uniongyrchol gyda staff yr oedd pobl yn ei ffafrio fwyaf er mwyn cael y newyddion diweddaraf am weithgareddau CCAUC.

6.29 Y neges allweddol yma yw bod perthynas yn bwysig a bod angen i Bartneriaid wneud yn siŵr eu bod yn deall yr ohebiaeth ffurfiol.

6.30 Gofynnwyd hefyd pa newidiadau yr hoffai pobl eu gweld i'r Daflen Newyddion a'r wefan.

6.31 Nid oedd u rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu gwneud sylw am nad oedden nhw'n defnyddio'r wefan nac wedi gweld y Daflen Newyddion.

C12 Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael y mae CCAUC yn cyfathrebu â'ch sefydliad

6.32 Roedd tri chwarter (77%) yr ymatebwyr yn teimlo bod CCAUC yn cyfathrebu'n weddol dda neu'n dda iawn gyda'u sefydliad.


C12 - Pa mor dda neu wael y mae CCAUC yn cyfathrebu gyda'ch sefydliad?
Ddim yn gw ybod
Gw ael iaw n
Gw eddol w ael
Gw eddol dda
Da iaw n
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%

Sail 48

C13. Mae CCAUC yn gynyddol newid i gyfathrebu ar y we ac yn electronig. Beth yw'ch barn am hyn?

6.33 Mae 88% o ymatebwyr yn ystyried defnydd cynyddol CCAUC o gyfathrebu ar y we yn weddol ffafriol neu'n ffafriol iawn. Mae hwn yn fwy cadarnhaol na sefydliadau hyd yn oed.



Sail 48

C14. Pa mor ddefnyddiol ydych chi'n bersonol yn gweld y canlynol?

6.34 Nid yw'r sampl ar gyfer pob cwestiwn yn cynnwys yr ymatebwyr hynny sydd wedi ticio 'ddim yn berthnasol' iddyn nhw. O ganlyniad, mae maint y sampl yn amrywio o 31 i 46. Mae yna nifer fawr yn ateb 'ddim yn gwybod' hefyd sy'n amrywio rhwng 20% a 40% o'r sampl.

6.35 Gan ystyried y materion uchod, mae cyfran uchel o ymatebwyr yn ystyried bod cyhoeddiadau ystadegol, canllawiau eglurhaol a chyhoeddiadau gwerth am arian ac arferion da sy'n ymwneud â busnes CCAUC yn ddefnyddiol iawn neu'n weddol ddefnyddiol.

6.36 Cafwyd cyfran sylweddol o sylwadau negyddol (20-25%) ar Adroddiad Blynyddol, Cynllun Corfforaethol CCAUC a gohebiaeth am ragolygon ariannol sefydliadau.

6.37 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gweld nad oedd cyhoeddiadau canllawiau a gofynion Ystadau yn ddefnyddiol iawn neu o ddim defnydd o gwbl. Mae'n debyg fod hyn yn adlewyrchu cynulleidfa arbenigol y cyhoeddiadau hyn.



Sail: 36 -46 (heb gynnwys nid yn berthnasol)

C15. Pa mor aml ydych chi'n mynd i wefan CCAUC (www.hefcw.ac.uk)?

6.38 Dim ond ychydig o weithiau'r flwyddyn y mae 60% o Bartneriaid yn mynd i wefan CCAUC.



Sail 48

C16. Pa agweddau ar weithgareddau CCAUC, os o gwbl, hoffech chi gael mwy neu lai o wybodaeth amdanyn nhw?

6.39 Hoffai cyfran fawr o ymatebwyr wybod mwy am weithgareddau CCAUC mewn sawl maes:

- AU o fewn AB
- Polisïau ar adolygu cynlluniau strategol sefydliadau
- Dulliau cyllido ar gyfer addysgu
- Dull cyllido ymchwil

6.40 Mae yna nifer cyfwerth (neu fwy) o ymatebwyr nad ydynt am gael mwy o wybodaeth



Sail 48

C17. Mae CCAUC yn datblygu polisïau a chymorth mewn amrywiaeth o feysydd. Pa rai o'r canlynol yr hoffech chi wybod mwy neu lai amdanynt?

6.41 Hoffai cyfran uchel o ymatebwyr wybod mwy am 'gysylltiadau gyda busnes a'r gymuned' (67%) ac 'arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli' (56%).

6.42 Hoffai cyfran gymharol uchel o ymatebwyr wybod mwy am y meysydd canlynol:

- Ymchwil
- Ehangu mynediad a chyfranogiad
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Ail-gyflunio a chydweithio



Sail 48

C18 Gan ystyried yr holl feysydd sy'n cael sylw yn yr arolwg hwn, yn eich barn chi beth ddylai fod yn feysydd allweddol i CCAUC eu gwella yn ystod y tair blynedd nesaf?

6.43 Roedd hwn yn gwestiwn agored a chafwyd 25 ymateb. Dyma themâu a ddaeth i'r amlwg:

<u>Cydweithio agosach gyda Chynghorau Sgiliau</u>

6.44 Cafwyd 7 sylw gan sefydliadau sgiliau; roedd sylwadau nodweddiadol yn cynnwys:

- Gweithio'n agosach gyda Chynghorau Sgiliau.
- Cyfarfodydd adolygu parhaus fel yr amlygir yn yr Asesiad Gwariant Safonol (SSA).
- Partneriaeth waith fwy ystyrlon gyda'r trydydd sector/sefydliadau diwydiant.
- Integreiddio pellach gyda Llywodraeth y Cynulliad ar weithgareddau 3ydd Cenhadaeth.
- Dweud am swyddogaeth CCAUC yng nghyd-destun cyffredinol y DU.
- Cyfathrebu mwy uniongyrchol e.e. trwy fwletinau e-bost gyda hanesion llwyddiant, astudiaethau achos fel bo partneriaid yn deall eu swyddogaeth a chyflawniadau.